**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad (CA (3) 07-10)**

**Dyddiad:** 4 Mawrth 2010
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

**CYNNWYS**

---

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 4 Mawrth 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, William Graham AC a Rhodri Morgan AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC. Nid oedd dim dirprwyon.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**CA400 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2010**
Gweithdrefn Negyddol. Fe'i gwnaed ar 11 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 15 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 28 Chwefror 2010

**CA401 – Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010**
Gweithdrefn Negyddol. Fe'i gwnaed ar 17 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 19 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 15 Mawrth 2010

**Offerynnau Drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (Gweithdrefn Gadarnhaol)**

**CA403 – Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant**
Gweithdrefn Gadarnhaol. Ni nodir y dyddiad y'i gwnaed**.** Ni nodir y dyddiad y'i gosodwyd. Y dyddiad y daw i rym yn unol ag erthygl 1.

**Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn Negyddol)**

**CA395 – Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010**
Gweithdrefn Negyddol. Fe'i gwnaed ar 9 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 10 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

Nododd y Pwyllgor, er bod Llywodraeth Cymru'n derbyn y pwynt adrodd, ei fod yn bwriadu "adolygu gweithrediad Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 erbyn 31 Mawrth 2012" ac i'w gywiro "fel rhan o'r adolygiad hwnnw.", sy'n golygu y bydd y gwall heb ei gywiro am ddwy flynedd arall. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddi esbonio pam nad oedd modd gwneud y cywiriad dan sylw yn gynt.

**CA399 – Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2010**
Gweithdrefn Negyddol. Fe'i gwnaed ar 10 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 11 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 4 Mawrth 2010

**Offerynnau Drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (Gweithdrefn Gadarnhaol)**

**CA397- Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010**
Gweithdrefn Gadarnhaol. Ni nodir y dyddiad y'i gwnaed**.** Ni nodir y dyddiad y'i gosodwyd. Yn dod i rym ar 1 Medi 2010.

Yn ychwanegol at amlygu'r pwynt adrodd o dan Reol Sefydlog 15.2, penderfynodd y Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Rheoliadau hyn o dan Reol Sefydlog 15.3 (ii) gan edrych ar faterion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad, gan eu bod yn gweithredu darpariaethau'n ymwneud ag arian ar gyfer ysgolion am dair blynedd.

Nododd y Pwyllgor, er bod y Rheoliadau'n nodi bod modd i'r awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion i wario gweddillion pan fo arian dros ben mewn ysgol yn £50,000 neu fwy (ysgol gynradd) neu £100,000 (ysgol uwchradd neu ysgol arbennig), roedd y Memorandwm Esboniadol yn dangos ei fod yn dal gweddill o fwy na 5% (yn hytrach nag unrhyw swm o arian parod) a oedd yn cynrychioli rheolaeth ariannol wael. Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad ar y mater hwn ond hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog yn tynnu sylw at y pryder, ac yn gofyn iddo gadarnhau bwriad y polisi ac i ofyn pam nad oedd cymal tebyg i "pa un bynnag sydd leiaf" wedi'i ddefnyddio.

**CA398 – Gorchymyn Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Diddymu) (Cymru) 2010**
Gweithdrefn gadarnhaol. Dyddiad y'i gwnaed heb ei nodi. Dyddiad y'i gosodwyd heb ei nodi. Yn dod i rym ar 1 Medi 2010

Ystyriodd y Pwyllgor y Gorchymyn hwn ar y cyd â CA397: er nad oedd dim pwyntiau i fod yn destun adroddiad yn y Gorchymyn hwn roedd yn ôl-ddilynol i'r "Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010".

Mae Adroddiadau'r Pwyllgor ar y Rheoliadau hyn o dan Reol Sefydlog 15.2 ac 15.3 wedi'u hatodi fel Atodiadau 1- 3.

**Busnes arall**

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor : Ymchwiliadau i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion.**
Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar oddi wrth Syr Emyr Jones Parry, Cadeirydd Confensiwn Cymru Gyfan, Confensiwn Cymru gyfan.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod tystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn ar Ymchwiliadau i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**4 Mawrth 2010**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**(CA(3)-07-10)**

**CA395**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Teitl: Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth, trafodion a swyddogaethau Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n dirymu Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004 a Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005, er bod rheoliad 32 yn darparu ar gyfer parhad y Bwrdd CIC a sefydlwyd o dan reoliad 23 o Reoliadau 2004 i'r graddau y sefydlwyd y Bwrdd CIC gan reoliad 23 o'r rheoliadau hynny.

**Craffu technegol**

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Wrth gyfeirio at sefydlu cyngor yn y diffiniad o "dosbarth Cyngor", dylid cyfeirio at erthygl 3 yn hytrach nag erthygl 4 o Orchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010 ("Gorchymyn 2010"). Mae hyn gan mai erthygl 3 o Orchymyn 2010 sy'n darparu ar gyfer sefydlu Cynghorau Iechyd Cymuned, ac nid erthygl 4. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

> "Derbynnir y pwynt adrodd. Mae'r Gweinidog yn bwriadu adolygu gweithrediad Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 erbyn 31Mawrth 2012**.** Bydd y pwynt adrodd a nodwyd yn cael ei gywiro fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Yn y cyfamser, ysgrifennir at y Cynghorau Iechyd Cymuned a'r sawl sy'n gyfrifol am benodi aelodau o Gynghorau Iechyd Cymuned, hynny yw, awdurdodau lleol a chyrff gwirfoddol dethol, i ddweud wrthynt am y gwall

> drafftio ac am y ffaith y caiff ei gywiro pan gaiff y Rheoliadau eu diwygio".

Nododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth, ond roedd yn pryderu na fyddai dim cywiro hyd fis Mawrth 2012 fan gynharaf. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i nodi ei fod yn pryderu am hyn.

**Craffu ar rinweddau**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau adrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**4 Mawrth 2010**

**Atodiad 2**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

## (CA(3)-07-10)

**CA397**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Teitl: Y Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010**

**Gweithdrefn: Gadarnhaol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003, Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004 a Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol AALl) (Cymru) 2004 mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2011. Maent yn darparu ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd ariannol hynny.

**Craffu technegol**

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

(i) Mae Rheoliad 4 yn datgan bod y dosbarthiadau o wariant awdurdod lleol wedi'u pennu yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Mae paragraff 8 (Iechyd ac amddiffyn plant) yn Atodlen 1yn cyfeirio at adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999 sydd wedi'i diddymu gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol), adran 6, Atodlen 4. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

(ii) Mae is-baragraff (2) o baragraff 1(Gwariant ar gyfer cynnal grantiau) yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn cyfeirio at adran 484 o Ddeddf 1998. Mae'r Rheoliadau yn diffinio Deddf 1998 fel Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Nid yw adran 484 o Ddeddf 1998 yn bodoli. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

**Ymateb y Llywodraeth i'r materion a oedd yn deillio o'r gwaith craffu technegol:**

**Y Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010**

(i) Mae'r cyfeiriad at Ddeddf Iechyd 1999 yno er mwyn sicrhau bod unrhyw drefniadau a wneir o dan y Ddeddf honno ac sy'n parhau mewn bod yn cael eu cynnwys. Ond gan fod y ddarpariaeth yn cael ei hail-ddeddfu yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 derbynnir nad oes gwir angen y cyfeiriad at Ddeddf 1999. Caiff ei ddileu pan fydd y rheoliadau yn cael eu diwygio nesaf. Gan nad yw'r rheoliadau yn gymwys tan y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2011, cynigir y caiff hyn ei wneud ar yr un pryd â newidiadau arfaethedig eraill, sef i newid y ffordd y trinnir plant sy'n cael eu haddysg mewn lle nad yw'n ysgol o safbwynt cyllideb. Bwriedir gwneud y newidiadau hyn cyn 1 Ebrill 2011.

(ii) Cyfeiriad at "Deddf 1996" ddylai'r cyfeiriad fod nid at "Deddf 1998". Cywirir hyn pan ddiwygir y rheoliadau nesaf.

## Craffu ar rinweddau

Mae'r materion a ganlyn wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3 (ii) ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad:

Mae'r rheoliadau'n gweithredu nifer o newidiadau i'r modd y mae Awdurdodau Lleol yn dyrannu cyllidebau ar gyfer yr ysgolion y maent yn eu cynnal ac i'r modd y maent yn monitro ac yn dal ysgolion i gyfrif am eu gwariant. Y newidiadau yw :

- **Cyllido ysgolion am 3 blynedd** – Bydd awdurdodau yn darparu rhagolwg tair blynedd i ysgolion ar gyfer pob dyraniad a gânt yn hytrach na'r flwyddyn unigol a wnânt ar hyn o bryd.

### Barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Mae hyn yn rhoi ar waith argymhelliad a wnaed ym mis Mehefin 2006 gan Bwyllgor yr Ail Gynulliad ar Gyllido Ysgolion[1], a argymhellodd gyflwyno cyllidebau tair blynedd ar gyfer ysgolion. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad yn gyflawn yn eu hymateb i adroddiad y Pwyllgor[2].

Ystyriwyd y mater eto gan y Trydydd Cynulliad yn 2008 pan ymgymerodd y Pwyllgor Menter a Dysgu'r ymchwiliad, *Trefniadau Ariannu Ysgolion*[3], a oedd yn ystyried y cynnydd a wnaed i weithredu argymhellion y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod cynnydd wedi'i wneud.

---

[1] Adroddiad ar Drefniadau Cyllido Ysgolion yng Nghymru s

[2] Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyllido Ysgolion y Cynulliad: 'Trefniadau Cyllido Ysgolion yng Ngyhymru' Datganiad y Cabinet 26/09/2006 Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

[3] Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu, Trefniadau Cyllido Ysgolion

Wrth nodi bod y newid hwn wedi cymryd peth amser i'w gyflwyno, mae'r Pwyllgor yn canmol Llywodraeth Cymru am weithredu ar ei ymrwymiad i gyflwyno cyllido 3 blynedd i ysgolion .

- **Arian dros ben o gyllidebau ysgolion** – Bydd modd i awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion i wario gweddillion pan fo arian dros ben mewn ysgol yn £50,000 neu fwy (ysgol gynradd) neu £100,000 (ysgol uwchradd neu ysgol arbennig), Os yw'r ysgol yn peidio â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd i wario, yna bydd modd i'r awdurdod gymryd yr arian dros ben yn ôl o bosibl gyda'r enillion yn mynd i Gyllideb Ysgolion yr awdurdod.

**Barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

Mewn ymateb i bryderon ynghylch lefel cronfeydd wrth gefn mewn rhai ysgolion, a diffyg trefniant cyson i ymdrin â hwy, bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori[4] ym mis Medi 2008 ar gynigion a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion i wario arian dros ben o 8% neu fwy. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gyda'r rheoliadau, esbonia'r Llywodraeth bod *"swm bach o arian dros ben yn cynrychioli rheolaeth synhwyrol ond mae arian gormodol dros ben yn rhwymo arian sy'n annerbyniol. Mae cadw gweddillion o dros 5% o'r gyllideb i ddim pwrpas penodol yn cynrychioli rheolaeth ariannol wael."* Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at ffigwr o 8%.

Er gwaethaf y cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at drothwy canran, mae'r rheoliadau'n nodi'r cyfyngiadau ar gyfer arian dros ben o gyllidebau ysgolion yn nhermau arian parod (hynn yw £50,000 a £100,000 fel y nodwyd), ac ystyr hyn yw y bydd rhai ysgolion yn gallu parhau i gadw gweddillion o dros 5% tra bod ysgolion eraill yn cael eu cyfarwyddo o bosibl i wario gweddillion o lai na 5%. Deallwn fod sefyllfa o'r fath yn berthnasol i o leiaf 200 o ysgolion yng Nghymru[5].

Nid cwestiynu'r polisi a arweiniodd at y newidiadau hyn yw'r diben, er, mae'n bosibl y bydd goblygiadau'r newid hwn yn ddadleuol yn lleol mewn rhai achosion. Fodd bynnag, ein pryder ni yw ei bod yn bosibl y bydd y cyfyngiadau arian o bosibl yn gwrthdaro â manteision rheoli cyllidebau'n synhwyrol, yn arbennig yn yr achosion hynny lle mae'r ffigurau yn nodi llai na 5% o gyllideb ysgol. Nid ydym yn deall pam nad oedd yn bosibl i ddrafftio'r rheoliadau hyn fel bod naill ai 5% neu swm o arian yn

---

[4] Ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft Cyllido Ysgolion (Cymru) 2009

[5] Gwefan StatsWales, Report 005488

berthnasol, yn dibynnu pa swm yw'r mwyaf (neu leiaf os dyna oedd y diben).

Rydym yn pryderu hefyd bod yr anghysondeb amlwg rhwng y Memorandwm Esboniadol a'r rheoliadau yn ei gwneud yn anodd i'r Cynulliad wybod beth yw bwriad y polisi sy'n gefndir i'r rheoliadau, ac, felly, a yw wedi'i drawsnodi'n gywir i'r rheoliadau?

- **Dyddiad hysbysu am Gyllidebau Ysgolion** – Mae'r rheoliadau'n newid y dyddiad y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am eu Cyllideb Ysgolion arfaethedig o 31 Ionawr i 14 Chwefror.

**Barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

Deallwn fod y newid wedi digwydd oherwydd nad yw'n bosibl i awdurdodau lleol ateb y dyddiad terfyn 31 Ionawr ac felly maent yn torri dyletswydd statudol heb ddim bai arnynt hwy. Nid oes gan y Pwyllgor farn ar y newid hwn, er ei fod yn ymddangos yn newid synhwyrol a chymharol fach i hwyluso gwell cydgysylltu â'r broses o bennu cyllidebau awdurdodau lleol. Nodwch ein pryderon, fodd bynnag, ynghylch y Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r newid.

- **Y Memorandwm Esboniadol**

**Barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

Yn ychwanegol at y rhai a nodwyd uchod, mae gennym nifer o bryderon eraill ynghylch y Memorandwm Esboniadol.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn darparu cyswllt â'r ymgynghoriad. Nid oes cyfeiriad at y materion a oedd yn deillio o'r ymgynghoriad na'r ymatebion iddo na chrynodeb ohonynt yn y Memorandwm. Hefyd ni roddir dim gwybodaeth ynghylch y dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried ac, a newidiodd y Gweinidogion eu cynigion gwreiddiol o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad?

Er ei fod yn newid rhesymol o bosibl, nid oes dim esboniad yn y Memorandwm Esboniadol am y rheswm dros y newidiadau i'r dyddiad hysbysu ar gyfer cyllidebau ysgolion.

Yn yr un modd, er bod y rhesymau am y newidiadau eraill yn haws i'w casglu, nid oes esboniad cadarn yn eu cylch yn y Memorandwm.

Mae'r rheoliadau hyn yn cymryd lle 3 set ar wahân o reoliadau, a, deallwn, maent yn fras yn dyblygu darpariaethau'r rheoliadau y maent yn cymryd eu lle. Serch hynny, cawsom ein synnu ryw gymaint i nodi o'r Memorandwm Esboniadol nad oedd barn fod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn angenrheidiol oherwydd bod y rheoliadau yn *"cymryd lle darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n bodoli eisoes â mân addasiadau".* Er mai dyma sy'n dechnegol wir, mae'r rheoliadau, serch hynny, yn gweithredu polisi arwyddocaol newydd o ran trefniadau cyllidebu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai disgwyl yn arferol i Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod wedi'i gynnal neu fod esboniad mwy cynhwysfawr wedi'i ddarparu ynghylch pam nad oedd angen Asesiad o'r fath.

Yn gyffredinol, ystyriwn fod y Memorandwm Esboniadol yn ddiffygiol, gan nad oes ynddo ddigon o gefndir na manylion, ac mae'n annigonol wrth fynd i'r afael â materion polisi pwysig.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**4 Mawrth 2010**

.

**Atodiad 3**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

## CA(3)-07-10)

**CA399**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Teitl: Y Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2010**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach (o ran Cymru) Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 (O.S. 1996/2890) ("y prif Reoliadau"), sy'n nodi'r prawf modd i bennu swm y grant y caniateir i'r awdurdodau tai lleol ei dalu o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

**Craffu technegol**

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Mae'r amnewidiad a wneir i'r prif Reoliadau gan reoliad 3(5)(c) yn cynnwys iaith ryw-benodol ("him" yn is-baragraff (i) a "his" yn is-baragraff (ii) heb "her" cyfatebol). [Rheol Sefydlog 15.2(viii)]

**Craffu ar rinweddau**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau adrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**4 Mawrth 2010**

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

**Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2010**

"Roedd y defnydd o iaith ryw-benodol yn y testun Saesneg ('his' a 'him') yn amhosibl i'w osgoi yn y Rheoliadau diwygio hyn achos mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 ("y prif reoliadau") sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr. Byddai newid y geiriau mewn cyn lleied o leoedd yn peri anghysondebau ac yn achosi

i’r darllenydd ddrysu. Mae swyddogion yn ystyried cydgrynhoi’r Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai, sy’n cael eu diweddaru bron yn flynyddol er mwyn cyfrif am y newidiadau blynyddol mewn budd-daliadau. Rhoddir ystyriaeth i hyn pan gaiff unrhyw Reoliadau cydgrynhoi eu drafftio yn y dyfodol er mwyn sicrhau y byddant yn osgoi defnyddio iaith ryw-benodol.